**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

17 Ionawr 2024

Annwyl Delyth

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 11 Rhagfyr ar ran Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol yn ymwneud â'r Gymraeg yn y maes bancio.

Rwyf wedi derbyn sawl darn o ohebiaeth gan aelodau'r cyhoedd yn ddiweddar yn ymateb i benderfyniad HSBC i ddiddymu eu gwasanaeth ffôn Cymraeg. Mae fy ymateb iddynt wedi bod yn gyson; sef bod y newyddion yn hynod o siomedig a fy mod yn ymrwymedig i gynyddu'r defnydd o'n hiaith. Mae hyn yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac yn ganolog i'n strategaeth, *Cymraeg 2050*.

Mae gan Lywodraeth Cymru Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chomisiynydd y Gymraeg. Yn y Memorandwm, mae maes bancio yn gyfrifoldeb i'r Comisiynydd. Er hyn mae'n fwriad gennyf i gysylltu â phenaethiaid gwasanaethau bancio yng Nghymru er mwyn atgyfnerthu pwysigrwydd y Gymraeg o fewn y sector ac er mwyn dwyn perswâd ar y sector i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.

Gwn fod y Comisiynydd eisoes wedi cyfarfod â HSBC i drafod penderfyniad y cwmni. Er na chafwyd awgrym y bydd y penderfyniad yn cael ei wyrdroi, mae HSBC wedi cytuno i ystyried sut i wella ymwybyddiaeth cwsmeriaid o'r gwasanaethau Cymraeg maent yn dal i'w cynnig. Mae'r Comisiynydd wedi cadarnhau y bydd hi'n gweithio gyda banciau i wneud y canlynol:

- Cynnwys gwybodaeth ar eu gwefan yn nodi pa wasanaeth Gymraeg sydd ar gael gan ba fanc a chymdeithas adeiladu a diweddaru hwn yn flynyddol;
- Cynnal perthynas rhagweithiol â'r banciau a chymdeithasau adeiladau;
- Trefnu ymweliad gyda phenaethiaid ac uwch swyddogion banciau a chymdeithasau adeiladu yn ystod 2024.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn yn parhau i dargedu sectorau sydd y tu hwnt i gwmpas Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 drwy wasanaeth Helo Blod. Mae'r gwasanaeth yn mynd o nerth i nerth ac yn darparu cymorth uniongyrchol a rhagweithiol i fusnesau i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg. Mae'r gwaith yma yn mynd law yn llaw â darpariaeth y Comisiynydd i'r sector breifat, felly byddwn yn parhau i gydweithio wrth lunio'n gwasanaethau ar gyfer y sectorau hyn.

Gobeithiaf y bydd y wybodaeth uchod yn ddefnyddiol i'r pwyllgor er mwyn cael dealltwriaeth o'r gwaith sydd eisoes ar y gweill yn y maes hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg